

PARTNERIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES RHANBARTHOL CWM TAF

CRONFA GOFAL INTEGREDIG CYNLLUN BUDDSODDI REFENIW 2018/19



CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau ar y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r Canllawiau'n nodi'r amcanion, yr amodau, y gofynion llywodraethu a'r trefniadau adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ICF yn 2018/19.

DYRANIADAU REFENIW YR ICF YN 2018/2019

Mae Canllawiau'r ICF yn cadarnhau bod y Gronfa am barhau i fod yn £50m ar gyfer Cymru yn 2018/19. Bydd Rhanbarth Cwm Taf yn derbyn y dyraniadau refeniw yma drwy'r Gronfa:

	Pobl Hŷn a Bregus	Camau atal	Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	Cyfanswm
Cwm Taf	£2,910,000.00	£1,580,056.45	£367,000.00	£158,005.65	£5,015,062.10

Bydd Rhanbarth Cwm Taf hefyd yn derbyn dyraniad ychwanegol o tua £480,000.00 i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Dementia yn 2018/2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach a fydd yn helpu'r Rhanbarthau i gwblhau eu cynigion manwl. Felly, mae'r Cynllun Buddsoddi yma yn cynnwys amlinelliad o fwriad y Rhanbarth mewn perthynas â dementia.

DULL STRATEGOL

Mae'r Cynllun Buddsoddi yma yn nodi blaenoriaethau Rhanbarth Cwm Taf yn erbyn y £5m o gyllid refeniw yn 2018/19. Er mwyn llywio'r cynllun, mae'r Bartneriaeth wedi ystyried y canlynol:

- Y gofynion sydd wedi'u nodi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gwerthusiad chwarterol ac adolygiad blynyddol o gynlluniau ICF Rhanbarthol a gafodd eu hariannu yn 2017/18
- Yr anghenion sydd wedi'u nodi yn Asesiad Anghenion Poblogaeth Cwm Taf (a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2017)
- Yr adborth a ddaeth i law gan bobl (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'u cynhalwyr) yn ystod unrhyw weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol; a
- Sut y mae'n cydfynd â chynlluniau strategol partneriaid a'r bartneriaeth, gan gynnwys:

- Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf 2018-23 (h.y. y Cynllun Ardal a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2018)
- Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn Cwm Taf 2015-25
- Strategaeth Cynhalwyr Cwm Taf 2016–19
- Datganiad o Fwriad Cwm Taf ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu a'u Teuluoedd Ar y Cyd
- Strategaeth Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd (i'w chwblhau a'i chymeradwyo ym mis Gorffennaf 2018)
- Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd y Brifysgol (IMTP) 2018-21.

CYNLLUNIAU REFENIW ICF CWM TAF

Mae Rhanbarth Cwm Taf yn bwriadu adeiladu ar yr arferion da a'r cynnydd a wnaed drwy'r ICF yn 2014/15, 2015/16, 2016/17 a 2017/18. O ganlyniad, mae yna ystod o gynlluniau i'w datblygu, gyda'r amcanion canlynol:


- Cydlynu gofal yn well rhwng meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a materion tai;
- Hyrwyddo/gwneud y gorau o gyfleoedd byw'n annibynnol;
- Osgoi derbyn pobl i'r ysbyty yn ddiangen neu oedi cyn eu rhyddhau;
- Cefnogi'r broses wella drwy gynyddu'r ddarpariaeth ail-alluogi;
- Sefydlu dulliau mwy rhagweithiol;
- Hwyluso integreiddio; a
- Gwella deilliannau.

LLYWODRAETHU

Mae'r manylion llawn yng Nghytundeb Ysgrifenedig ICF Rhanbarth Cwm Taf 2017-20, yn unol â'r hyn a gafodd ei gytuno gan Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol Cwm Taf.

CASGLIAD

Mae Rhanbarth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cwm Taf yn falch o'r cynnydd cadarnhaol a wnaed drwy ddefnyddio arian yr ICF yn 2014/15, 2015/16, 2016/17 a 2017/18. Mae hyn wedi gosod sylfeini cryf ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector i bobl hŷn yng Nghwm Taf, ac yn fwy diweddar i bobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a chynhalwyr. Nod pob cynllun yw hyrwyddo annibyniaeth a lles, lleihau achosion o argyfwng a gwella deilliannau. Rydyn ni o'r farn y bydd y dyraniad parhaus yn 2018/19 yn helpu Rhanbarth Cwm Taf i weddnewid y meysydd sy'n flaenoriaeth i ni a'r grwpiau cleientiaid hynny sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Buddsoddi yma.




Rachel Rowlands, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf

Dyddiad: 31 Mai 2018



Allison Williams - Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad: 6 Mehefin 2018



Steve Webster, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad: 31 Mai 2018

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf, yn unol â gofynion Canllawiau ICF 2018/19. Mae wedi'i gadarnhau bod modd cyflenwi pob cynllun yn ystod 2018/19.

POBL HŶN SYDD AG ANGHENION CYMHLETH A CHYFLYRAU HIRDY MOR, GAN GYNNWYS DEMENTIA £3,468,268						
DOLENNI I ASESIAID POBLOGAETH CWM TAF Mae'r cynlluniau isod wedi'u hasesu fel rhai sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth pobl hŷn yng Nghwm Taf:						
<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi pobl i fyw gartref/yn y gymuned • Wrth i bobl fynd yn hŷn, sicrhau eu bod nhw'n parhau i fwynhau eu bywydau a bod eu hanghenion gofal a chymorth yn lleihau. • Darparu gofal a chefnogaeth wedi'u teilwra'n well ar gyfer pobl sydd ag anghenion uwch (e.e. yr henoed bregus) yn eu cartrefi, neu mor agos â phosib at eu cartrefi • Helpu pobl i ddod yn annibynnol eto ar ôl profi anhwylder (e.e. salwch neu brofedigaeth) • Mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd • Lleihau dibyniaeth ar ofal hirdymor 						
Disgrifiad o'r Cynllun ICF	Cyllideb arfaethedig	Dolen i egwyddorion yr ICF (gweler Atodiad 1)	Cyswllt â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol (gweler Atodiad 2)	Effaith a Ragwelir (Gweithgarwch a thargedau manwl/meincnodau i'w cynnwys yn rhan o adroddiadau monitro chwarterol)	Cerrig Milltir Cyflenwi Allweddol	Adnoddau Ychwanegol (os yw'n berthnasol)
OP1 Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref Gwasanaeth sy'n ceisio atal ysbytai rhag derbyn pobl ac sy'n hwyluso eu rhyddhau o'r ysbyty, a hynny trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	£1,830,268	i canolbwyntio adnoddau a chynyddu capasiti ar gyfer cynlluniau cydlynu gofal neu gynlluniau ymateb cyflym iii ymyriadau ataliol i helpu i atal ysbytai rhag derbyn pobl yn ddiangen, a hynny drwy eu hasesu nhw yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a chomisiynu/darparu gofal iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth yn y gymuned gan y trydydd sector mewn da bryd fel bod modd i gleifion ddychwelyd i'w cartrefi	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 3.1, 3.3, 4.2, 7.2, 7.4, 8.1	Gan fod hwn yn wasanaeth newydd mawr a chymhleth, mae setiau cadarn o Ddangosyddion Cyflawniad wedi'u paratoi ar gyfer pob rhan o'r gwasanaeth Mae'r mesurau hollgwmpasog isod yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru bob chwarter: Cynnydd yn y ganran o bobl 61 oed a hŷn a gafodd eu gweld yn nrws ffrynt	Chwarter 1 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18) Gan adeiladu ar adolygiadau mewnol bob 6 mis a 12 mis, cafodd gwerthusiad allanol gan Brifysgol De Cymru ei gomisiynu. Bydd yn cael ei gynnal yn ystod Chwarter 1	Derbyn £150k eto gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o 2017/18 fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru

<p>wrth i unigolion gyflwyno'u hunain yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r garfan amlddisgyblaeth yn gweithredu 365 diwrnod y flwyddyn o 8am i 8pm yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl</p>		<p>mewn modd amserol</p> <p>iv cynyddu capasiti gwasanaethau ail-alluogi ac ymateb cyflym i ateb y galw yn well (gan gynnwys gwasanaethau gyda'r nos a gwasanaethau ar y penwythnos)</p> <p>v annog arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy</p> <p>vi hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd byw'n annibynnol, gan gynnwys addasu cartrefi mewn modd amserol</p>		<p>yr ysbyty a'u gofyn i ddychwelyd i'w cartrefi</p> <p>Cynydd yn y ganran o bobl 61 oed a hŷn na arhosodd yn yr ysbyty (0 LOS)</p> <p>Gostyngiad yn y ganran o bobl 61 oed a hŷn yn aros 5 diwrnod neu'n hirach</p> <p>Gostyngiad o ran hyd arhosiad ar gyfartaledd (ALOS) ar gyfer pobl 61 oed a hŷn yn aros 5 diwrnod neu'n hirach</p> <p>Gostyngiad o 50% yn nifer y cleifion a gafodd eu nodi bob mis i'w trosglwyddo i safle ysbyty cymunedol</p>	<p>Mehefin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi</p> <p>Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 1 a 2 - Datblygu achos busnes ar gyfer cyfnod 2</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
<p>OP 2 - Cydlynwyr Cymunedol</p> <p>Gweithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau i leihau unigrwydd trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a chyfeirio at weithgareddau a gwasanaethau mewn cymunedau lleol</p>	<p>£248,500</p>	<p>iii ymyriadau ataliol i oedi/leihau'r angen am ofal a chymorth a fydd hefyd o bosib yn helpu i osgoi ysbytai rhag derbyn pobl yn ddiangen, yn ogystal ag atal oedi wrth eu rhyddhau.</p> <p>v annog arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy trwy hyrwyddo a datblygu gwasanaethau'r Trydydd Sector a gwasanaethau dan arweiniad y gymuned</p> <p>vi annog byw'n annibynnol/helpu pobl i aros yn annibynnol</p>	<p>1.1, 1.2, 2.1, 2.2, 4.2, 5.1, 5.2, 6.1, 6.2, 7.1, 7.2, 7.3, 7.4</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynydd yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn • Cynydd yn nifer y mentrau newydd sy'n cael eu cefnogi/hyrwyddo • Cynydd yn nifer y grwpiau/gweithgareddau newydd sy'n cael eu nodi • Cynydd yn nifer y bobl gafodd eu cyfeirio/eu hatgyfeirio i'r Trydydd Sector neu i asiantaethau statudol • Cynydd yn nifer y bobl sy'n mynychu sesiynau ymwybyddiaeth 	<p>Ebrill 2017 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18)</p> <p>Mehefin 2017 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi</p> <p>Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau</p>	

				<p>sgrinio/gwrthbrofi credoau anwir</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yn nifer y buddiolwyr newydd • Cynnydd yng nghyfanswm yr holl fuddiolwyr • Cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr newydd sy'n cael eu recriwtio • Cyfanswm oriau gwirfoddoli • Defnyddio pecyn cymorth Lles i fesur effaith ar gyfer unigolion - yn ceisio gwella o ran cael perthynas dda; ystyr a phwrpas; teimladau da 	2019/20	
<p>OP 3 - Lles mewn Pum Cam</p> <p>Yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl sydd am wirfoddoli neu weithio yn y sector gofal. Mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n rhan o gynlluniau tai gwarchod i ddarparu cefnogaeth o ran lles a galluogi</p>	£40,000	<p>iii atal - hyd yma, mae deilliau'r prosiect yn dangos bod iechyd, lles, unigrwydd ac unigedd pobl hŷn wedi gwella'n sylweddol, gan arwain at iechyd, hapusrwydd a lles parhaus gartref, a llai o ddibynniaeth ar ysbytai a/neu ddarpariaeth gofal preswyl.</p> <p>v annog arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy drwy weithio gyda'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig</p>	1.1, 1.2, 2.1, 2.2, 4.2, 5.1, 5.2, 6.1, 6.2, 7.1, 7.2, 7.3, 7.4	Mesurau fel yr uchod - ar gyfer adrodd, mae'r cynllun wedi'i gyfuno â chydlynwyr cymunedol OP1	<p>Ebrill 2018 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18) gydag adolygiad o drefniadau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael ei gynnal er mwyn edrych ar gynaliadwydd yn y dyfodol</p> <p>Mehafin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 2 -</p>	Trafodaethau â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

					Argymhellion o adolygiad y cynllun i lywio cyllid ar gyfer ail hanner 2018/19	
<p>OP 4 Gweithwyr Cymdeithasol Ychwanegol</p> <p>Ateb y galw ychwanegol am anghenion ym maes asesu a rheoli gofal mewn achosion cymhleth</p>	£223,333	<p>i canolbwyntio adnoddau a chynyddu capasiti cydlynu gofal neu gynlluniau ymateb cyflym (fel carfanau adnoddau cymunedol) a pha mor gyflym maen nhw'n cael eu datblygu, i fodloni'r galw yn well a gwella tegwch o ran mynediad at wasanaethau</p> <p>ii sefydlu dull mwy rhagweithiol, gan geisio nodi'r bobl hynny sydd mewn perygl o 'aros' o fewn gofal eilaidd, a fyddai'n effeithio ar eu gallu i fynd yn ôl i fyw'n annibynnol</p>	1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 2.3, 3.1, 8.1	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y ceisiadau am asesiad Deilliannau yn cynnwys --- lleoliadau cartrefi gofal; - dychwelyd i'r gymuned; - yn annibynnol heb orfod dibynnu ar unrhyw wasanaethau parhaus 	<p>Ebrill 2018 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18)</p> <p>Mehafin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
<p>OP5 Cydlynnydd Rhyddhau Cleifion - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd</p> <p>Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng carfanau iechyd a gofal cymdeithasol, a hwyluso rhyddhau cleifion mewn modd amserol, yn enwedig mewn perthynas ag achosion cymhleth,</p>	£97,014	<p>ii sefydlu dull mwy rhagweithiol, gan geisio nodi'r bobl hynny sydd mewn perygl o 'aros' o fewn gofal eilaidd, a fyddai'n effeithio ar eu gallu i fynd yn ôl i fyw'n annibynnol</p> <p>iii sefydlu ymyriadau ataliol i helpu ysbytai rhag derbyn pobl yn ddiangen neu i helpu pobl rhag cael eu derbyn i ofal preswyl sydd ddim yn briodol, yn ogystal ag atal oedi wrth i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty</p> <p>v Annog arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy</p>	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.2, 3.3	<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr atgyfeiriadau a ddaeth i law Gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau y mae angen gwybodaeth bellach arnyn nhw 	<p>C1 - Model Gwasanaeth Newydd yn ei le (newidiadau wedi eu cytuno i fodel 2017/18 fel ei fod yn gweithio'n fwy effeithiol gyda chynllun Cadw'n Iach Gartref)</p> <p>Mehafin 2017 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn</p>	

					Seiliedig ar Ganlyniadau	
					Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20	
<p>OP6 Carfanau Cymorth Gofal yn y Cartref</p> <p>Atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty a darparu cefnogaeth i breswylwyr ag anghenion mwy cymhleth. Mae modd i staff cartrefi gofal gael gafael ar gyngor, asesiadau, gwasanaeth triniaeth uwch a hyfforddiant sgiliau yn hawdd er mwyn rheoli anghenion preswylwyr yn well a darparu gwasanaeth mwy holistaidd o safon.</p>	£181,901	<p>i cynyddu'r capasiti i gydlynu gofal a gwasanaethau ymateb cyflym - gwell mewnbwn i bob cartref gofal a chartrefi preswyl</p> <p>iii ymyriadau ataliol - caiff cleifion mewn gofal preswyl cymorth os ydyn nhw'n sâl, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd angen iddyn nhw drosglwyddo'n gynharach i leoliadau gofal nyrsio neu gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth hefyd yn derbyn atgyfeiriadau gofal eilaidd sy'n golygu bod modd rhyddhau unigolion yn gynharach i fynd yn ôl i gartrefi gofal/preswyl gyda chymorth.</p>	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 3.1, 3.3, 7.2, 7.4, 8.1	<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr atgyfeiriadau newydd Nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb dilynol Nifer y cyfarfodydd dilynol nad ydyn nhw'n wyneb yn wyneb Derbyniadau i'r ysbyty a gafodd eu hatal Dyddiau gwely wedi'u harbed 	<p>Ebrill 2018 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18)</p> <p>Mehefin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
<p>OP7 Cynyddu Capasiti o fewn Gofal Canolraddol, Ail-alluogi a Gwasanaethau Ymateb Cychwynnol</p> <p>Ymyriadau aml-asiantaeth tymor byr</p>	£598,250	<p>i cynyddu'r capasiti i gydlynu gofal neu gynlluniau ymateb cyflym, gan gynnwys rhoi cymorth i bobl â dementia</p> <p>iii ymyriadau ataliol fel bod ysbytai neu ofal preswyl ddim yn derbyn pobl yn ddi-angen. Gwella'r broses rhyddhau pobl o'r ysbyty</p>	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 3.1, 3.3, 4.2, 7.2, 7.4, 8.1	<ul style="list-style-type: none"> Oriau cymorth wedi'u darparu % o ddefnyddwyr y gwasanaeth y mae modd iddyn nhw fyw'n annibynnol % o ddefnyddwyr y gwasanaeth sydd ddim angen cymorth pellach gan wasanaethau statudol 	<p>Ebrill 2018 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18)</p> <p>Mehefin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a</p>	

ac ail-alluogi er mwyn cefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty ac osgoi eu derbyn yn y lle cyntaf, sydd o ganlyniad yn hybu annibyniaeth		<p>iv gwell capasiti i'r garfan ail-alluogi a gwella'r gwasanaeth ymateb cyflym er mwyn diwallu anghenion</p> <p>vi hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd byw'n annibynnol</p>		<ul style="list-style-type: none"> • % o ddefnyddwyr y gwasanaeth a oedd yn teimlo eu bod wedi cyflawni eu nodau • Nifer yr atgyfeiriadau i'r prosiect cof • Oriau cymorth wedi'u darparu • Nifer y dyddiau gwely wedi'u harbed 	<p>thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
<p>OP8 Gwasanaeth â Chymorth Rhyddhau'n Gynnar Wedi Strôc</p> <p>Carfan amlddisgyblaethol sy'n darparu gwell cyfleusterau adfer gartref ac yn sicrhau bod cleifion sydd wedi cael strôc yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynharach.</p>	£249,002	<p>i canolbwyntio adnoddau a chynyddu capasiti i gydlynu gofal neu gynlluniau ymateb cyflym - sy'n cefnogi'r daith o'r ysbyty i wasanaethau cymunedol mewn ffordd effeithlon</p> <p>ii sefydlu dull mwy rhagweithiol, gan geisio nodi'r bobl hynny sydd mewn perygl o 'aros' o fewn gofal eilaidd, a fyddai'n effeithio ar eu gallu i fynd yn ôl i fyw'n annibynnol</p> <p>iii ymyriadau ataliol - yn hwyluso ymatebion cymunedol pwrpasol ac yn hyrwyddo mynd yn ôl i fyw'n annibynnol</p>	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.3, 3.1, 3.2, 3.3, 7.1, 7.2, 7.4, 8.1	<ul style="list-style-type: none"> • % y cyfanswm o gleifion a gafodd strôc o fewn ardal Bwrdd Iechyd y Brifysgol a gafodd eu derbyn i'r gwasanaeth • Cyfartaledd hyd yr arhosiad yn yr ysbyty ar gyfer cleifion a gafodd eu derbyn gan y gwasanaeth (dyddiau) o'i gymharu â hyd yr arhosiad meincnod ar gyfer yr holl gleifion a gafodd strôc (11 diwrnod) 	<p>Ebrill 2018 - Model gwasanaeth yn ei le (yn parhau o 2017/18)</p> <p>Mehfin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
Cyfanswm	£3,468,268					

POBL AG ANABLEDDAU DYSGU, PLANT AG ANGHENION CYMHLETH A CHYNHALWYR

£1,021,788.45

DOLENNI I ASESIAID POBLOGAETH CWM TAF

Mae'r cynlluniau isod wedi'u hasesu fel rhai sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth pobl Cwm Taf:

Anableddau Dysgu

- Helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus
- Darparu cymorth arbenigol i bobl ag anghenion cymhleth/parhaus
- Helpu pobl i fyw'r bywyd maen nhw ei eisiau – i fod yn fwy annibynnol, i reoli eu bywydau a'u hanghenion eu hunain ac i fod yn rhan o'u cymunedau.

Plant sydd ag Anghenion Cymhleth

- Ymyrryd yn gynnar a darparu cymorth
- Darparu cymorth o ran hunan-barch, creu perthnasau cadarnhaol a sgiliau bywyd
- Lleihau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Cefnogi plant a phobl ifainc i gymryd yr awenau o ran eu bywydau a'u lles eu hunain, gan eu helpu i fyw y bywyd gorau posibl
- Darparu gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant ym mhob rhan o'u bywydau, gan gynnwys eu cartrefi, eu teuluoedd, eu hysgolion a'u cymunedau
- Rhoi cefnogaeth a chymorth i gwrdd â heriau rhianta.

Cynhalwyr (o bob oedran)

- Cydnabod bod pob cynhaliwr a phob achos yn wahanol
- Gwella sut rydyn ni'n nodi cynhalwyr fel bod modd i ni ddiwallu eu hanghenion yn well
- Darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir, ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl i gyflawni eu rôl ofalu
- Helpu cynhalwyr i gael bywyd 'cytbwys', lle dydy eu cyfrifoldebau gofalu ddim yn effeithio'n negyddol ar eu lles eu hunain, a'u helpu i barhau i gysylltu â'u bywyd ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu
- "Rydyn ni'n gynhalwyr llwyddiannus pan fydd y person yn ein gofal yn hapus."

Cynlluniau'r ICF	Cyllideb arfaethedig	Dolen i egwyddorion yr ICF	Cyswllt â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol	Effaith a Ragwelir	Cerrig Milltir Cyflenwi Allweddol	Adnoddau Ychwanegol (os yw'n berthnasol)
<p>CLD 1 Grant Cyllid Cymunedol (CCG)</p> <p>Prosiectau atal y trydydd sector er mwyn gwella iechyd a lles.</p>	<p>£60,000</p>	<p>iii Nod meini prawf y cais yw denu ystod eang o gynlluniau ataliol a allai helpu ysbytai rhag derbyn pobl yn ddiangen yn ogystal ag atal oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty</p> <p>v Mae'r Cynllun Grant Cyllid Cymunedol wedi'i sefydlu'n bwrpasol er mwyn annog mynd i'r afael â'r meini prawf drwy ddefnyddio dulliau arloesol, yn ogystal â</p>	<p>1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.2, 3.3, 4.1, 4.2, 5.1, 5.2, 7.2, 7.4, 8.1</p>	<p>Bydd pob un o'r prosiectau llwyddiannus ar gyfer 2018/19 sy'n cael eu rhestru isod yn effeithio ar grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr. Bydd data gweithgarwch a deilliannau manwl yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol, gan gynnwys defnyddio offeryn Lles Cwm Taf sy'n mesur yr effaith ar</p>	<p>Ebrill a Mai 2018 - Canlyniadau'r broses ymgeisio a gafodd ei chymeradwyo gan y Grŵp Arweinyddiaeth sy'n Gweddnewid a'r Bwrdd Partneriaeth</p>	<p>Cyllid Trosiannol ar gyfer grant Cynhalwyr</p>

		<p>bod yn rhywle i brofi prosiectau peilot sy'n dangos dulliau newydd o gyflenwi gwasanaethau</p> <p>vi Mae annog byw'n annibynnol/helpu pobl i aros yn annibynnol wedi bod yn un o feini prawf allweddol y Cynllun Grant ers ei sefydlu</p> <p>viii Mae gofyn i bob ymgeisydd i'r Cynllun Grant nodi arian cyfatebol a fydd o fudd i economi iechyd a gofal cymdeithasol Cwm Taf, os caiff grant ei ddyfarnu iddyn nhw. Er enghraifft, yn 2015-16 cyfanswm y dyraniad grant oedd £64,485 a chafodd £68,765 o arian cyfatebol ei roi hefyd. (unrhyw ddiweddariad)</p>		<p>berthynas dda, ystyr a phwrpas a theimladau da</p> <p>CLD1A Llwybrau Newydd - Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Cwm Taf ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arny'n nhw</p> <p>CLD 1B Pobl RhCT yn Gyntaf - datblygu dull cydgynhyrchu wrth gynllunio a gwerthuso gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu</p> <p>CLD1C Merthyr Tudful Fwy Diogel - rhaglen fentora gefnogol i bobl dros 50 oed</p> <p>CLD 1D Shine Cymru - gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr ar gyfer pobl â spina bifida a/neu hydrocephalus</p> <p>CLD1E Materion Gwirfoddoli Cynllun Cyfeillio ym Merthyr Tudful</p>	<p>Rhanbarthol</p> <p>Mehefin 2018 - Cytuno ar adrodd gweithgarwch bob chwarter, amserlenni, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Mehefin - Prosiectau'n weithredol</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
<p>CLD 2 Pecynnau Gofal Anabledd Dysgu ar y Cyd</p> <p>Creu cyllideb gyfun ar gyfer pecynnau gofal Anabledd Dysgu ar y cyd er mwyn rheoli achosion a threfniadau symud</p>	£961,788.45	<p>i canolbwyntio adnoddau a sicrhau dull integredig o ran rheoli achosion</p> <p>v agwedd arloesol o ran darparu pecynnau gofal gydag asiantaethau'n rhannu'r cyfrifoldeb</p> <p>ix nodi atebion llety lleol ar gyfer pobl sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal</p>	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.3, 4.1, 4.2, 5.1, 5.2, 6.1, 6.2, 7.1, 7.2, 7.3, 7.4, 7.5, 8.1	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y pecynnau gofal ar y cyd wedi'u cefnogi gan gytundeb cyfun Nifer o adolygiadau wedi'u cynnal ar y cyd Yn dilyn adolygiad, y nifer sy'n cael eu hariannu gan un asiantaeth yn unig (ac sydd ddim bellach yn rhan o'r trefniant cyfun) 	<p>Ebrill 2018 - Cronfa gyfun yn ei lle (yn parhau o 2017/18)</p> <p>Mehefin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter,</p>	<p>Cyllid craidd ychwanegol gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd y Brifysgol</p>

ymlaen mewn modd mwy rhagweithiol, gan sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu yn y lle iawn ar yr adeg iawn.				<ul style="list-style-type: none"> Yn dilyn adolygiad, y nifer sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal, a'r amser mae'n ei gymryd i ddarparu lleoliad priodol arall Bydd y deilliannau ar gyfer unigolion yn rhai pwrpasol ac wedi'u seilio ar eu hanghenion 	prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20	
Cyfanswm	£1,021,788.45					

Y GWASANAETH AWTISTIAETH INTEGREDIG

£367,000

DOLENNI I ASESIAID POBLOGAETH CWM TAF

Yn dilyn asesiad, mae'r cynlluniau isod wedi'u nodi fel rhai sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth pobl ag Awtistiaeth (o bob oed) yng Nghwm Taf:

- Gwella mynediad at ofal a chymorth
- Helpu pobl i deimlo bod gyda nhw reolaeth dros eu bywydau
- Darparu gofal a chefnogaeth integredig/holistaidd

Cynlluniau'r ICF	Cyllideb arfaethedig	Dolen i egwyddorion yr ICF	Cyswllt â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol	Effaith a Ragwelir	Cerrig Milltir Cyflenwi Allweddol	Adnoddau Ychwanegol (os yw'n berthnasol)
Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	£367,000	i, iii, v Partneriaeth fwy effeithiol, asiantaethau'n gweithio ar y cyd, integreiddio ac ymgysylltu i ddiwallu anghenion unigolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd/cynhalwyr	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.2, 3.3, 4.1, 4.2, 5.1, 5.2, 6.1, 6.2, 7.1, 7.3, 7.4, 7.5, 8.1	Bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu hyblygrwydd lleol. Bydd yn effeithio ar blant, pobl ifainc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal â'u teuluoedd, eu rhieni a'u cynhalwyr, drwy wella'r broses asesu, diagnosis, cefnogaeth ac ymyriad cryno integredig.	Ebrill 2018 - Gwasanaeth yn weithredol ac wedi'i fewnosod Mehfin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch	

				<p>Bydd y gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant, e.e. mewn perthynas â</p> <ul style="list-style-type: none"> • materion emosiynol, pryder ac ymddygiad, a'i nod fydd lleihau unigedd cymdeithasol • Materion Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth penodol a sgiliau bywyd • Helpu unigolion i gael gafael ar gyfleoedd cymdeithasol, hamdden a chyflogaeth • Pontio • Datblygu dealltwriaeth o fewn gwasanaethau cyffredinol a chymunedol. <p>Bydd manylion yr effaith yn cael eu cofnodi mewn adroddiadau monitro chwarterol i Lywodraeth Cymru sy'n gofyn am wybodaeth am safonau gwasanaeth cenedlaethol, data gweithgaredd a data deilliannau mewn perthynas ag ansawdd bywyd, pryder ac iselder</p>	<p>bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
Cyfanswm	£367,000					

SYSTEM WYBODAETH GOFAL CYMUNEDOL CYMRU (WCCIS)
£158,005.65

Cynlluniau'r ICF	Cyllideb arfaethedig	Dolen i egwyddorion yr ICF	Cyswllt â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol	Effaith a Ragwelir	Cerrig Milltir Cyflenwi Allweddol	Adnoddau Ychwanegol (os yw'n berthnasol)
Mae ystod o gynigion Rhanbarthol wedi'u paratoi i gefnogi gweithredu a chyflwyno WCCIS (cadarnhad o'r cynigion i ddilyn)	£158,005.65	Sicrhau bod gyda'r Rhanbarth y capasiti, y sgiliau a'r offer i weithredu a chyflwyno WCCIS yn llwyddiannus		<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi cyflenwi'r gwasanaeth • Sicrhau parhad a chyflwyno adroddiadau cyflawniad • Darparu dull cadarn o ran hyfforddi defnyddwyr terfynol • Sicrhau bod data'n cael ei fudo'n llwyddiannus • Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol 	<p>C1 - Cytuno ar gynigion i gefnogi gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr ym mis Gorffennaf 2017 - RhCT i fod yn weithredol ym mis Mai 2018</p> <p>Mehafin 2018 - Cytuno ar amserlenni adrodd gweithgarwch bob chwarter, prosesau a thempledi Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</p> <p>Chwarter 3 - Adolygiad blynyddol o'r cynllun i lywio cynlluniau 2019/20</p>	
Cyfanswm	£158,005.65					

DEMENTIA - Rydyn ni'n disgwyl am ganllawiau ICF atodol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyllid yma. Felly, mae'r cynlluniau sydd wedi'u rhestru isod (a gafodd eu datblygu gan grŵp aml-asiantaeth gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr) yn rhai bras yn unig. Bydd cynigion manwl yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried cyn i arian gael ei ryddhau.

Oddeutu £480,000

Gan adeiladu ar waith fel prosiect Valley LIFE gyda'n cymunedau lleol a'n rhanddeiliaid, rydyn ni am sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia, eu cynhalwyr a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi mewn modd amserol ac yn elwa ar lwybr gofal clir i wella eu lles a'u hansawdd bywyd, gyda gwasanaethau hyblyg i ddiwallu gwahanol anghenion ar wahanol gyfnodau o fyw gyda dementia.

Mae Ysbyty George Thomas wedi'i ailfodelu yn Ganolfan Iechyd a Lles yn Nhreorci ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol a phroblemau gyda'u cof. Rydyn ni hefyd yn ystyried datblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol ar y safle erbyn 2020. Yn amodol ar gyllid, rydyn ni'n bwriadu adeiladu Canolfan Iechyd a Lles newydd ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol a phroblemau gyda'u cof yn rhan o adnodd pentref sy'n addas i bobl â dementia ar safle Parc Iechyd Keir Hardie ym Merthyr Tudful.

Cynlluniau'r ICF	Cyllideb arfaethedig	Dolen i egwyddorion yr ICF	Cyswllt â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol	Effaith a Ragwelir	Cerrig Milltir Cyflenwi Allweddol	Adnoddau Ychwanegol (os yw'n berthnasol)
Datblygu caffis/canolfannau sy'n addas i bobl â dementia mewn amgylcheddau croesawgar priodol yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Rydyn ni'n archwilio i leoliadau posibl ar hyn o bryd, gan gynnwys y ganolfan iechyd a lles yn Ysbyty George Thomas. Mae model cyllido cynaliadwy yn cael ei ddatblygu trwy fenter gymdeithasol y trydydd sector a model cyflenwi creu incwm.	Hyd at £350k Effaith blwyddyn gyfan	Bydd pob cynllun sy'n cael ei gynnig: i yn canolbwyntio adnoddau a chynyddu capasiti cydlynu gofal a chynlluniau ymateb cyflym gyda charfan arbenigol mewn perthynas â'r dull dan sylw iii yn cynnwys ymyriadau ataliol i ddarparu cefnogaeth yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain mewn modd amserol ar gyfer pobl â symptomau dementia sy'n datblygu v yn cynnwys modelau arloesol a newydd o ddarparu gwasanaethau mwy rhagweithiol ac integredig, e.e. carfan arbenigol ar gyfer dementia ymysg pobl iau (dan 65 oed); cymorth i grwpiau agored i niwed penodol; a model cyflenwi mentrau cymdeithasol ar gyfer caffi	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 2.1, 2.2, 2.3, 3.1, 3.2, 3.3, 4.1, 4.2, 5.1, 5.2, 6.1,6.2, 7.1, 7.3, 7.5, 8.1	Dolenni i gynllun gweithredu Dementia i Gymru: Bydd caffi sy'n addas i bobl â dementia a charfanau integredig arbenigol sy'n gweithredu model "craidd a chlwestwr" gyda charfan allgymorth mewn perthynas â'r dull dan sylw yn cefnogi • Lleihau risg dementia a'i atal rhag dechrau: bydd mwy o unigolion yn deall y camau y mae modd iddyn nhw eu cymryd i leihau eu risg neu atal dementia rhag dechrau, e.e. y garfan a'r caffi yn hyrwyddo a chynorthwyo gyda'r 6 cham syml i newid eich ffordd o fyw (o'r	Canllawiau atodol i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod Chwarter 1. Bydd y cynigion manwl a chostau wedyn yn cael eu cyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo modd.	Bydd rhai cynlluniau yn ddibynnol ar Gyllid yr ICF. Cynigion sy'n cael eu datblygu i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru - canllawiau ychwanegol ar broses cyfalaf a chymhwysor ICF i ddod gan Lywodraeth Cymru yn ystod Chwarter 1

<p>Bydd cyfleoedd hyfforddiant, profiad gwaith, gwirfoddoli a chyflogaeth yn cefnogi datblygiad cymunedau sy'n addas ar gyfer pobl â dementia</p> <p>Datblygu carfanau arbenigol mewn perthynas â'r dull dan sylw gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a dementia ymysg pobl iau</p> <p>Byddai carfanau amlddisgyblaeth yn cael eu sefydlu yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Wedi'u lleoli yn y ganolfan/caffi iechyd a lles ac yn ymestyn i gymunedau lleol i weithio'n bennaf o fewn y cyfnodau "atal" dementia, "achosion cychwynnol" a dirywiad gwybyddol</p> <p>Gweithio gyda Dementia Care Matters i fabwysiadu eu model mewn dau gartref preswyl a gwasanaethau oriau'r</p>	<p>Hyd at £625k Effaith blwyddyn gyfan</p> <p>£35k</p>	<p>dementia sy'n gysylltiedig â chanolfannau iechyd a lles lleol a/neu'r gymuned leol</p> <p>vi yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer byw'n annibynnol, gan gynnwys datblygu dealltwriaeth y gymuned o dementia a'r rôl y mae modd i bobl leol, gan gynnwys gwirfoddolwyr, chwarae wrth gefnogi pobl, eu cynhalwyr a'u teuluoedd i fyw'n dda gartref</p>		<p>Cynllun Gweithredu Dementia)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth: bydd y boblogaeth ehangach yn deall yn well yr heriau y mae pobl sy'n byw gyda dementia yn eu hwynebu a'r camau y mae modd iddyn nhw eu cymryd i'w cefnogi • Cydnabod ac adnabod: bydd pobl yn fwy effro i arwyddion cynnar dementia, pwysigrwydd diagnosis cynnar ac yn gwybod ble mae help ar gael • Asesu a diagnosis: o ystyried y ffaith bod y carfanau'n canolbwyntio ar dementia yn ei gyfnod cynnar, dementia ymysg pobl iau, a grwpiau agored i niwed penodol, bydd rhagor o bobl yn cael diagnosis cynharach, fel bod modd iddyn nhw gynllunio ar gyfer y dyfodol a chael cymorth a gofal cynnar os oes angen, gan aros mor annibynnol â phosib trwy gydol eu taith <p>Bydd y cynigion manwl yn cynnwys mesurau gweithgarwch a deilliannau i'w adrodd bob chwarter i Lywodraeth Cymru, yn unol â gofynion y canllawiau atodol pan fyddan nhw'n cael eu cyhoeddi</p>		
--	--	---	--	--	--	--

dydd ym Merthyr Tudful						
Cyfanswm	£1,010,000					

CANLLAWIAU'R GRONFA GOFAL INTEGREDIG EBRILL 2018

Dylai'r ICF helpu Byrddau Partneriaeth i gyflawni egwyddorion a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gan gynnwys integreiddio, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, atal ac ymyrryd yn gynnar a datblygu modelau cyflenwi amgen. Mae hefyd yn rhoi cyfle i:

- i. ganolbwyntio adnoddau a chynyddu capasiti cydlynu gofal neu gynlluniau ymateb cyflym (fel carfanau adnoddau cymunedol ac amlddisgyblaethol) a pha mor gyflym y mae modd eu datblygu, i fodloni'r galw yn well a gwella tegwch o ran mynediad at wasanaethau;
- ii. sefydlu dull mwy rhagweithiol, gan geisio nodi'r bobl hynny sydd mewn perygl o 'aros' o fewn gofal eilaidd, a fyddai'n effeithio ar eu gallu i fynd yn ôl i fyw'n annibynnol;
- iii. sefydlu ymyriadau ataliol i helpu osgoi ysbytai rhag derbyn pobl yn ddiangen neu sicrhau bod pobl ddim yn cael eu derbyn i ofal preswyl sydd ddim yn briodol, yn ogystal ag atal oedi wrth i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty;
- iv. cynyddu capasiti gwasanaethau ail-alluogi ac ymateb cyflym i ateb y galw yn well (gan gynnwys gwasanaethau gyda'r nos a gwasanaethau ar y penwythnos);
- v. annog arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy;
- vi. hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd byw'n annibynnol, gan gynnwys addasu cartrefi mewn modd amserol;
- vii. helpu i ddatblygu cydweithio wrth asesu anghenion a chynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau ar lefel clwstwr gofal sylfaenol;
- viii. defnyddio ffynonellau cyllid eraill (er nid eu hamnewid), fel y gronfa gofal sylfaenol, i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd; a
- ix. nodi atebion llety lleol ar gyfer pobl sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal, unigolion ag anghenion cymhleth a phobl ag anableddau dysgu

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth a Chynhalwyr sydd angen cymorth.

(<https://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>)

Yr hyn y mae lles yn ei olygu	Deilliannau lles cenedlaethol
1. Sicrhau hawliau Hefyd i oedolion: rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd.	1.1 Rwy'n gwybod ac yn deall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael, ac rwy'n eu defnyddio i wella fy lles 1.2 Gallaf asesu'r wybodaeth gywir, pan fyddaf ei hangen, yn y ffordd rwy'n ei dewis ei chael, ac yn defnyddio hyn i reoli a gwella fy lles 1.3 Rwy'n cael fy nhrin yn deg ac â pharch ac urddas. 1.4 Mae fy llais yn cael ei glywed ac mae pobl yn gwrandao arna i 1.5 Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried 1.6 Rwy'n siarad dros fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, neu mae gyda fi rywun sy'n gallu gwneud hynny i mi.
2. Iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol Hefyd ar gyfer plant: datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.	2.1 Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach 2.2 Rwy'n hapus ac yn gwneud y pethau sy'n fy ngwneud i'n hapus 2.3 Rwy'n derbyn y gofal a'r cymorth cywir cyn gynted â phosibl.
3. Diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustra.	3.1 Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod 3.2 Rwy'n cael fy nghefnogi i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod 3.3 Rwy'n gwybod am sut i roi gwybod i bobl am fy mhryderon.
4. Addysg, hyfforddiant a hamdden.	4.1 Mae modd i mi ddysgu a datblygu i'm potensial llawn 4.2 Rwy'n gwneud y pethau cywir sy'n bwysig i mi.
5. Perthnasau personol, perthnasau teulu a pherthnasau yn y cartref	5.1 Rwy'n perthyn 5.2 Rwy'n cyfrannu at berthnasau diogel ac iach ac yn eu mwynhau.
6. Cyfrannu at y gymuned	6.1 Rwy'n ymgysylltu a chyfrannu at fy nghymuned 6.2 Mae'r gymdeithas yn fy ngwerthfawrogi.
7. Llesiant cymdeithasol ac economaidd. Hefyd i oedolion: cymryd rhan mewn gwaith.	7.1 Rwy'n cyfrannu tuag at fy mywyd cymdeithasol ac mae modd i mi fod gyda'r bobl rydw i'n eu dewis 7.2 Dydw i ddim yn byw mewn tlodi 7.3 Rwy'n cael fy nghefnogi i weithio 7.4 Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf i dyfu i fyny a bod yn annibynnol

	7.5	Rwy'n cael gofal a chymorth drwy'r Gymraeg os ydw i'n dymuno hynny.
8. Addaswydd llety.	8.1	Rydw i'n byw mewn tŷ sy'n cefnogi fy lles orau.